

Crynodeb o'r Bwrdd Teithio Llesol

29 Tachwedd 2018

Croeso a chyflwyniadau

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod, gan gyflwyno ei hun a chroesawodd aelodau newydd o Living Streets a Trafnidiaeth Cymru i'r Bwrdd.

Gwasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru

Cyflwynwyd i'r Bwrdd gynlluniau Trafnidiaeth Cymru ar gyfer gwelliannau teithio llesol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau a gorsafoedd rheilffordd. Mae hyn yn cynnwys datblygu Strategaeth Teithio Llesol. Mae Trafnidiaeth Cymru yn bwriadu archwilio pob gorsaf reilffordd yng Nghymru a datblygu 50 o gynlluniau teithio i orsafoedd rhanbarthol. Cefnogir y gweithgaredd hwn gan 22 o Lysgenhadon fydd yn gweithio gyda'r cymunedau lleol.

Amlygodd Trafnidiaeth Cymru hefyd yr ymrwymadau penodol tuag at gerdded a beicio, gan gynnwys buddsoddiad fel rhan o'r £194m cyffredinol i uwchraddio gorsafoedd a chynyddu faint o le sydd i feiciau ar wasanaethau rheilffordd. Mae ymrwymiad hefyd i ddarparu storfa feiciau ym mhob gorsaf Metro erbyn diwedd 2023, sef buddsoddiad cyfalaf o £1.4m.

Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Siaradodd Ysgrifennydd y Cabinet ychydig eiriau, gan dynnu sylw at lwyddiant Nextbike yng Nghaerdydd a sut gellid ehangu ac integreiddio cynlluniau rhannu beiciau cyhoeddus fel rhan o gynlluniau Trafnidiaeth Cymru.

Trafodwyd cyllid hir-dymor gydag Ysgrifennydd y Cabinet yn cadarnhau bod ymrwymiad i deithio llesol ar draws y Llywodraeth, a'i fod yn debygol iawn y bydd cyllid yn cael ei gynnal.

Trafododd y Bwrdd bwysigrwydd cydweithio ar draws adrannau'r Llywodraeth a phartneriaid eraill, yn enwedig defnyddio Strategaeth Trafnidiaeth Cymru i integreiddio teithio llesol i mewn i bolisi trafndiaeth ehangach. Pwysleisiodd y Bwrdd hefyd yr angen am gyllid refeniw ar gyfer rhaglenni newid ymddygiad, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Cafwyd trafodaeth ar bresgripsiynu cymdeithasol gyda chynllun peilot i'w gynnal ym Mwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro mewn partneriaeth â Nextbike. Soniwyd hefyd am y cydweithio pellach rhwng Beicio Cymru a Sustrans drwy'r Gronfa Byw yn Iach ac Egnïol.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro

Rhoddyd crynodeb i'r Bwrdd o sut mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro yn datblygu gwaith ar deithio llesol, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am ymrwymadau eu Cynllun Lles a'r gweithgareddau a chynlluniau gwahanol i wella a chynyddu teithio llesol yn eu hardal. Mae hyn yn cynnwys seilwaith beicio, trafndiaeth gyhoeddus rhatach, map rhyngweithiol o gyfleusterau teithio llesol a chyfathrebu cyson drwy roi eu pecyn cymorth cyfathrebu ar waith. Mae'r BGC hefyd wedi gosod targedau i leihau'r defnydd o geir a chynyddu teithio llesol fel y ffordd o deithio sy'n cael ei ffafrio ar gyfer cymudo, ac y bydd pob sefydliad partner yn ymrwymo iddo.

Yn dilyn y cyflwyniad, trafododd y Bwrdd y gallu i gyflawni'r targedau arfaethedig, a'r posibilrwydd o ddefnyddio'r Contract Economaidd fel ffordd o annog newid mewn ymddygiad teithio ar draws cyflogwyr gwahanol. Soniwyd hefyd am raglen Cymru Iach ar Waith gyda diddordeb ymhlith cydweithwyr ansawdd aer am fwy o gydweithio.

Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Deithio Llesol i'r Ysgol

Trafododd y Bwrdd y Cynllun Gweithredu a ddatblygwyd gan y Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Deithio Llesol i'r Ysgol. Roedd y meysydd a drafodwyd yn cynnwys sail y targed o 60% a pha mor briodol oedd y camau gweithredu. Cytunwyd y dylid gwneud gwaith pellach i ddatblygu cynigion ar gyfer targedau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a dylid edrych unwaith eto ar y data sylfaenol.

Cafwyd sgwrs fer hefyd ynglŷn ag Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan gynnwys y diffyg cyllid cyfalaf sy'n cael ei roi i seilwaith teithio llesol mewn ysgolion. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei godi mewn cyfarfod gyda thîm Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae hefyd yn ystyriaeth ar gyfer Polisi Cynllunio Cymru sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Cyhoeddwyd Argraffiad 10 ym mis Rhagfyr a gellir dod o hyd iddo fan hyn: <https://llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru>.

Canlyniadau Gweithdy Teithio Llesol

Cynhaliwyd y Gweithdy Teithio Llesol ym mis Hydref 2018, lle bu'r Bwrdd yn trafod sut i gynyddu a hyrwyddo teithio llesol yng Nghymru yn effeithiol. Gwahoddwyd y Bwrdd i roi adborth a chynnig y ffordd orau o symud y gwaith hwn yn ei flaen. Cytunwyd y dylai'r Bwrdd geisio nodi 2-3 amcan cyffredin y gall pob sefydliad ar y Bwrdd eu cefnogi a'u hychwanegu at eu strategaethau unigol eu hunain.

Diweddariad Llywodraeth Cymru

Rhoddwyd diweddariad byr i'r Bwrdd ar weithgarwch Llywodraeth Cymru, gan gynnwys diweddariad ar Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Trafododd y Bwrdd hefyd wahodd cynrychiolydd ar ansawdd aer i ymuno â'r Bwrdd.

Cynhadledd Teithio Llesol

Gwahoddwyd y Bwrdd i awgrymu cynnwys posibl ar gyfer y Gynhadledd Teithio Llesol nesaf yn 2019. Yn dilyn rhai awgrymiadau, cytunwyd y byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

Unrhyw Fater Arall

Yn dilyn cais gan aelod, cododd yr Ysgrifenyddiaeth fater ynglŷn â chylchrediad ehangach papurau'r Bwrdd. Trafododd y Bwrdd y mater yn fras a chytunodd i barhau â'r trafodaethau yn y cyfarfod nesaf ym mis Chwefror.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 21 Chwefror 2019 10:30-12:30.